

Adolygiad o ddeddfwriaeth i ganfod pwerau i hyrwyddo'r broses o ddargyfeirio deunyddiau y gellir eu hailgylchu (gan gynnwys gwastraff bwyd) o gynwysyddion gwastraff gweddilliol mewn eiddo domestig

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o becyn o waith a gomisiynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ar gyfer Rhaglen Newid Ymddygiad gyda'r nod o berswadio deiliaid eiddo domestig i roi deunyddiau y gellir eu hailgylchu mewn cynwysyddion i'w hailgylchu. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfod deddfwriaeth y caiff awdurdodau lleol Cymru ei defnyddio i hyrwyddo'r broses o ddargyfeirio deunyddiau y gellir eu hailgylchu (gan gynnwys gwastraff bwyd) o gynwysyddion gwastraff gweddilliol, gyda phwyslais penodol ar bwerau gorfodi.

Mae'r pecyn gwaith yn cynnwys cymhathu gwahanol ffynonellau gwybodaeth a pharatoi amryw o ddogfennau, gan gynnwys canllawiau, trefniadau cam wrth gam a dogfennau pro forma i awdurdodau lleol Cymru, i'w galluogi nhw i ddefnyddio pwerau gorfodi yn effeithiol i helpu i leihau nifer y deunyddiau y gellir eu hailgylchu sydd i'w canfod mewn ffrydiau gwastraff gweddilliol.

Dyma'r deunyddiau y gellir eu hailgylchu sy'n cael eu cynnwys yn y pecyn gwaith hwn:

- Deunyddiau y gellir eu hailgylchu sy'n cael eu casglu gan awdurdodau casglu gwastraff yng Nghymru, neu ar eu rhan, o eiddo domestig; a
- Gwastraff cartrefi y gellir ei ailgylchu, gan gynnwys papur, plastig, metel, gwyrdr ac unrhyw ddeunyddiau eraill y gellir eu hailgylchu ac y bydd yr awdurdod casglu gwastraff yn eu casglu o bryd i'w gilydd o eiddo domestig; a
- Deunyddiau y gellir eu hailgylchu, na chodir tâl am eu casglu, oherwydd mae pob eitem yn pwyso llai na 25kg ac mae'n ffitio yn y cynhwysydd ar gyfer gwastraff cartrefi sy'n cael ei ddarparu gan awdurdod casglu gwastraff yng Nghymru o dan Adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 neu, os nad oes cynhwysydd o'r fath yn cael ei ddarparu, cynhwysydd silindr 750mm mewn diamedr ac 1m o hyd.

2 Dull Gweithredu

Y fethodoleg a ddefnyddiwyd i adolygu'r deddfwriaeth berthnasol oedd cynnal astudiaeth bwrdd gwaith o bob deddfwriaeth cyfraith gwastraff perthnasol posibl yng Nghymru a gwerthuso hyn o dan y penawdau canlynol:

- Golwg gyffredinol ar ffynonellau cyfraith gwastraff yng Nghymru;
- Adolygu deddfwriaeth y mae gan Lywodraeth Cymru bwerau oddi tani i lunio cyfraith gwastraff;
- Adolygu deddfwriaeth sy'n gosod rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr gwastraff cartrefi.

Mae'r adroddiad isod yn cyflwyno canfyddiadau pob cam o'r gwerthuso, gan nodi'r gyfraith berthnasol, disgrifio ei gofynion, a phan fo hynny'n berthnasol, crynhoi'r cosbau a all fod yn berthnasol pan geir achos o dorri'r rheolau.

Cyflwynir tabl o ddeddfwriaethau ar ddiwedd yr adroddiad, lle ceir crynodeb o bob deddfwriaeth, y pwerau a'r cosbau.

3 Golwg gyffredinol ar ffynonellau cyfraith gwastraff yng Nghymru

Mae cyfraith gwastraff yng Nghymru yn deillio o'r Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

3.1 Ffynonellau Cyfraith Gwastraff yng Nghymru: Undeb Ewropeaidd

Mae nifer o gyfreithiau gwastraff yng Nghymru yn deillio o'r Undeb Ewropeaidd. Roedd y cyfarwydddebau fframwaith gwastraff diweddaraf, sef Cyfarwydddeb 2008/98/EC, yn nodi'r cysyniadau sylfaenol a'r diffiniadau sy'n berthnasol i reoli gwastraff, ac roedd yn cyflwyno hierarchaeth rheoli gwastraff y mae gofyn i aelod-wladwriaethau eu gweithredu mewn cyfraith a pholisi: atal, aildddefnyddio, ailgylchu, adfer a gwaredu. Y targed ailgylchu sy'n berthnasol i wastraff cartrefi yw y bydd cyfanswm deunyddiau gwastraff o gartrefi a deunyddiau o ffrydiau gwastraff tebyg i wastraff o gartrefi ond o fannau eraill, a fydd yn cael eu paratoi i gael eu haildddefnyddio a'u hailgylchu yn cynyddu i o leiaf 50% yn ôl pwysau erbyn 2020.

Fel rhan o Becyn Economi Gylchol yr UE, y cytunodd y Cyngor Ewropeaidd arno ar 22 Mai 2018, cafodd Cyfarwydddeb 2008/98/EC ei diwygio gan Gyfarwydddeb 2018/851 ar 14 Gorffennaf 2018, ac roedd yn ofynnol i aelod-wladwriaethau drosi'r darpariaethau erbyn 14 Gorffennaf 2020. Mae'r Gyfarwydddeb yn darparu ar gyfer amryw o offer i hyrwyddo'r economi gylchol drwy reoli gwastraff. Mae hyn yn cynnwys cynyddu targedau i baratoi i aildddefnyddio ac ailgylchu gwastraff, cyflwyno diffiniadau newydd, ee ar gyfer gwastraff bwyd, annog defnyddio offerynnau economaidd a mesurau eraill i gymell pobl i roi'r hierarchaeth gwastraff ar waith a darparu ar gyfer cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr.

Oherwydd ansicrwydd ynghylch trefniadau'r DU wrth adael yr UE, nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd a fydd gofyn i'r DU roi darpariaethau Cyfarwydddeb 2018/851 ar waith.

Mae gwastraff yn faes sydd wedi cael ei ddatganoli yn y DU i raddau helaeth. Yn ôl yr hyn a gofnodwyd yng Nghyfarwyddyd Tŷ'r Cyffredin ar ailgylchu gwastraff cartrefi yn y DU ("Household recycling in the UK" (Medi 2018)), roedd cyfraddau ailgylchu mewn cartrefi yng Nghymru yn 2016/17 yn 64% o gymharu â chyfradd ailgylchu gwastraff cartrefi yn y DU drwyddi draw, sef 44.6%. Er y gall gwahaniaeth mewn strategaethau gwastraff rhwng gweinyddiaethau'r DU gynyddu ar ôl i'r DU adael yr UE, mae marchnad fewnol y DU ei hun o ran masnach yn golygu y bydd gofyn i rai safonau gwastraff sydd ar lefel yr UE ar hyn o bryd, gael eu cydlynu rhwng pedwar awdurdodaeth y DU, er enghraifft o ran safonau cynnyrch, cyfrifoldeb cynhyrchwyr a masnach gwastraff. Gallai newidiadau i safonau rhwng awdurdodaethau yn y DU, a rhwng yr UE a'r DU, er enghraifft o ran safonau pecynnu a sgil-gynhyrchion anifeiliaid, yn ogystal â newidiadau yn natur masnachu mewn nwyddau a gwastraff, effeithio ar y marchnadoedd a'r seilwaith ailgylchu sydd ar gael, gan hefyd effeithio ar y gallu i gyrraedd targedau ailgylchu yn y dyfodol.

3.2 Ffynonellau Cyfraith Gwastraff yng Nghymru: Cenedlaethol

Deddfwriaeth fel Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n cynnwys Prydain Fawr; deddfwriaeth fel Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr; a deddfwriaeth fel Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2006 y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chreu ar gyfer Cymru yn unig sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer cyfraith gwastraff yng Nghymru. Pan fydd deddfwriaeth yn trosi cyfraith yr UE, disgwylir y bydd gan y Llywodraeth ddeddfwriaeth ar waith, cyn i'r DU adael yr UE, i gynnal y gyfraith rheoli gwastraff bresennol a throsglwyddo'r cymwyseddau sy'n cael eu cyflawni gan y Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd i unigolyn neu weinyddiaeth berthnasol.

4 Adolygu deddfwriaeth y mae gan Lywodraeth Cymru bwerau oddi tani i lunio cyfraith gwastraff

Cynhaliwyd adolygiad lefel uchel o bwerau deddfu Llywodraeth Cymru ym maes gwastraff i ganfod unrhyw bwerau penodol sy'n berthnasol i reoleiddio gweithgareddau gwahanu gwastraff gan gartrefi.

4.1 Deddf yr Amgylchedd 1995

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae [Rhan V, adran 92](#) yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol (ac i Lywodraeth Cymru nawr, yn dilyn datganoli) lunio strategaeth wastraff genedlaethol. Mae [Adrannau 93 – 95](#) yn ymwneud â chyfrifoldeb cynhyrchwyr.

Mae [A93 \(1\) o Ddeddf yr Amgylchedd](#) yn darparu y gall Llywodraeth Cymru osod rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr, deunyddiau a chynnyrch gwastraff er mwyn gweld cynnydd yn yr achosion o aildddfnyddio, adfer neu ailgylchu cynnyrch neu ddeunydd. Gall rheoliadau ddarparu bod unigolyn sy'n mynd yn groes i ofyniad rhagnodedig rhwymedigaeth cyfrifoldeb cynhyrchwyr yn euog o drosedd a gall gael dirwy.

Nid oes unrhyw rwymedigaethau cyfrifoldeb cynhyrchwyr wedi'u llunio sy'n gosod gofynion ar ddeiliaid cartrefi.

4.2 Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Mae'r pwerau a gafodd eu datganoli i Lywodraeth Cymru yn 2006 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru bryd hynny) yn cynnwys

[a.79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006](#), sy'n mynnu bod Gweinidogion Cymru yn paratoi cynllun sy'n nodi sut maent yn cynnig hyrwyddo datblygu cynaliadwy, wrth arfer eu swyddogaethau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru*, sy'n cofnodi'r targedau sy'n cael eu cyflwyno yn y Cynllun Sicrhau Dyfodol Diwastraff. Y nod yw bod adfer yn opsiwn i uchafswm o 30% o wastraff trefol erbyn 2025, yn ogystal â'r lefel uchaf bosibl o wastraff gweddilliol cartrefi ar gyfer pob trigolyn, sef 150kg y flwyddyn, a'r lefel uchaf bosibl o wastraff trefol sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, sef 5%. Hefyd, mae'r Cynllun yn ceisio graddol ddiddymu safleoedd tirlenwi gwastraff o bob sector arall.

Erbyn 2050, maent yn dymuno na fydd unrhyw wastraff gweddilliol. Felly bydd gofyn dylunio cynnyrch a gwasanaethau i leihau gwastraff neu aildddfnyddio gwastraff cymaint â phosibl.

4.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015](#) yn pennu saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Dyma'r nodau: Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. [O dan adran \(10\)\(1\) y Ddeddf](#), mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol: (a) cyhoeddi dangosyddion y mae'n rhaid eu gweithredu at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau Llesiant; a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae un dangosydd cenedlaethol yn ymwneud â gwastraff, sef 'Swm y gwastraff a gynhyrchir, nad yw'n cael ei ailgylchu, y pen'. Mae'r dangosydd hwn yn cynnwys cyfanswm (kg) y gwastraff gweddilliol (hynny yw, gwastraff nad yw'n cael ei ailddeddfyddio, ei ailgylchu na'i gompostio) yng Nghymru gan bob sector, ar sail y pen.

Defnyddir gwybodaeth yn y datganiad hwn i gyfrifo cydran 'gwastraff gweddilliol cartrefi Awdurdod Lleol' ar gyfer y dangosydd cenedlaethol. Nid yw gwybodaeth am wastraff o'r sector diwydiannol a masnachol a'r sector adeiladu a dymchwel yn cael eu hadrodd yn y datganiad ystadegol hwn. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i reoleiddio gweithgareddau gwastraff cartrefi.

4.4 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Roedd [Adran 65 Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) yn diwygio Rhan II o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i ddarparu ar gyfer trefniadau newydd yng nghyswllt casglu gwastraff ar wahân (sy'n cael ei ystyried ym mhwynt 5.1.3 isod). Roedd hefyd yn cyflwyno pŵer i Weinidogion Cymru yn Adran 45AB i gyflwyno codau ymarfer i roi arweiniad ymarferol ynghylch sut mae cydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u gosod gan Adran 45AA neu o dan yr Adran honno.

5 Adolygu deddfwriaeth sy'n gosod rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr gwastraff cartrefi

Diffinnir gwastraff cartrefi yn [Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Adran 75\(5\)](#) fel gwastraff o:

- Eiddo domestig (adeilad neu ran hunangynhwysol o adeilad, a ddefnyddir yn gyfan gwbl at ddibenion llety byw);
- Carafán neu faes carafannau;
- Cartref preswyl;
- Eiddo sy'n rhan o brifysgol, ysgol neu sefydliad addysgol arall; ac
- Eiddo sy'n rhan o ysbyty neu gartref nyrsio.

Mae gwastraff yn cael ei ddsbarthu ymhellach yn [Rheoliadau Gwastraff a Reolir \(Cymru a Lloegr\) 2012](#) - yn [Atodlen 1](#) disgrifir gwastraff sydd i'w drin fel gwastraff cartrefi, diwydiannol neu fasnachol oherwydd lle mae wedi cael ei gynhyrchu, ei natur neu'r gweithgarwch sy'n ei gynhyrchu. Mae paragraff 4, Atodlen 1 y Rheoliadau yn disgrifio gwastraff cartrefi y gall awdurdodau lleol godi tâl am ei gasglu a/neu ei waredu o dan adran 45(3) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae hyn yn cynnwys codi tâl am gasglu (ond nid gwaredu) unrhyw eitem o wastraff o eiddo domestig:

- sy'n pwyso mwy na 25kg; neu

- nad yw'n ffitio mewn cynhwysydd ar gyfer gwastraff cartrefi sy'n cael ei ddarparu gan awdurdod casglu gwastraff yng Nghymru o dan Adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 neu, os nad oes cynhwysydd o'r fath yn cael ei ddarparu, cynhwysydd silindr 750mm mewn diamedr ac 1m o hyd
- sy'n wastraff gardd.

Mae gan awdurdodau lleol fwy o bwerau gorfodi yng nghyswllt gwastraff cartrefi a gynhyrchir gan gartrefi preswyl, sefydliadau addysgol ac ysbytai, na sydd gan ddeiliaid eiddo domestig. Er enghraifft, mae'r ddyletswydd gofal o dan [Adran 34\(1\) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd](#) yn berthnasol i'r sefydliadau hyn, ond nid i ddeiliaid eiddo domestig yng nghyswllt gwastraff cartrefi.

Gall gwastraff cartrefi gynnwys gwastraff sy'n cael ei ddsbarthu'n 'sgil-gynhyrchion anifeiliaid': *Cyrff cyfan neu rannau o anifeiliaid, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid neu gynhyrchion eraill a geir o anifeiliaid na fwriedir i bobl eu bwyta.*

Mae sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cynnwys gwastraff arlwy, olew coginio wedi'i ddefnyddio, hen fwyd, gwastraff a gwaed o safleoedd cigyddion¹.

Pan fydd sgil-gynhyrchion anifeiliaid a gwastraff arlwy yn cael eu compostio neu eu treulio'n anaerobig, rhaid gwneud hyn mewn ffatri sy'n bodloni anghenion gofynion triniaeth a safonau penodedig o ran hylendid ffatrioedd. Fodd bynnag, mae [eithriad](#) o dan Reoliad (EC) 1069/2009 sy'n cyd-fynd â gweithredu Rheoliad (EC) 142/2011, a orfodwyd yng Nghymru gan [Reoliadau Sgïl-gynhyrchion Anifeiliaid \(Gorfodi\) \(Rhif 2\) 2011](#) yn caniatáu compostio gwastraff arlwy a threulio anaerobig ar y safle y daeth ohono ac mewn ardaloedd penodol oddi ar y safle, lle nad oes risg y bydd da byw yn cael mynediad yno, heb fod angen i'r rhain fod yn gyfleusterau cymeradwy. Mae'r eithriad yn cynnwys deiliaid eiddo domestig, grwpiau cymunedol a chynhyrchwyr eraill gwastraff cartrefi, fel sefydliadau addysgol ac ysbytai, yn compostio a threulio gwastraff yn anaerobig. Felly, er y gall deiliaid eiddo domestig ddewis defnyddio cynlluniau compostio cymunedol neu yn y cartref ar gyfer rhai mathau o wastraff bwyd, mae'r eithriad yn golygu nad yw'n berthnasol ystyried pwerau awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi o dan [Reoliadau Sgïl-gynhyrchion Anifeiliaid \(Gorfodi\) \(Cymru\) 2014](#) yn yr adroddiad hwn.

5.1 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, adran 33

Mae [Adran 33\(1\)\(a\)](#) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn datgan na chaiff unigolyn ddyddodi gwastraff a reolir, neu beri'n fwriadol i wastraff a reolir neu ganiatáu'n fwriadol i wastraff a reolir gael ei ddyddodi mewn neu ar unrhyw dir oni bai fod trwydded amgylcheddol ar gael sy'n caniatáu hynny a bod y dyddodi'n unol â'r drwydded.

Mae torri gofynion Adran 33(1)(a) yn drosedd. Gall awdurdodau lleol Cymru erlyn unrhyw unigolyn sy'n torri gofynion Adran 33(1)(a). Wrth ddedfrydu ar ôl euogfarn, bydd y Llys Ynadon neu Lys y Goron yn defnyddio'r canllawiau dedfrydu a gyhoeddir gan Gyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr, yn arbennig y canlynol:

- <https://www.sentencingcouncil.org.uk/offences/> (yn y Llys Ynadon)
- <https://www.sentencingcouncil.org.uk/crown-court/> (yn Llys y Goron) a
- <https://www.sentencingcouncil.org.uk/publications/item/environmental-offences-definitive-guideline/> (ar gyfer troseddau amgylcheddol penodol, gan gynnwys achosion o dorri gofynion Adran 33).

¹ Erthygl 3 - [Rheoliad \(EC\) Rhif 1069/2009](#)

Ceir opsiwn gorfodi ychwanegol yn [Rheoliadau Dyddodi Gwastraff Heb Awdurdod \(Cosbau Penodedig\) \(Cymru\) 2017](#), a ddaeth i rym ar 25 Hydref 2017, gan ddiwygio Rhan 2 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i gynnwys [adran 33ZB](#). Mae hyn yn rhoi'r pŵer i swyddog awdurdodedig awdurdod casglu gwastraff yng Nghymru i roi hysbysiad cosb benodedig i unigolyn pan fydd y swyddog awdurdodedig hwnnw'n credu ei fod wedi cyflawni trosedd o ran dyddodi gwastraff yn ardal yr awdurdod casglu gwastraff. Rhaid i'r hysbysiad cosb benodedig gynnwys digon o fanylion am yr amgylchiadau yr honnir sy'n ffurfio'r drosedd, fel sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi gwybodaeth resymol am y drosedd. Rhaid nodi'r canlynol hefyd:

- a) y cyfnod pan na fydd achos yn cael ei ddwyn ar gyfer y drosedd o dan adran 33(1)(a);
- b) swm y gosb benodedig;
- c) i bwy y dylid talu'r gosb benodedig ac ym mha gyfeiriad.

Mae peidio â rhoi enw neu gyfeiriad pan fydd y swyddog awdurdodedig yn gofyn am hynny, neu roi enw neu gyfeiriad ffug neu anghywir, yn drosedd sy'n agored drwy euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Bydd y gosb benodedig a fydd yn daladwy naill ai'n swm a bennir gan yr awdurdod casglu gwastraff yng Nghymru y mae'r swyddog awdurdodedig a roddodd yr hysbysiad yn gweithio iddo, heb fod yn llai na £150 a ddim mwy na £400, neu, os nad yw'r awdurdod casglu gwastraff wedi pennu swm, £200.

Ni fyddai'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i ddeiliad cartref a oedd wedi rhoi gwastraff i gael ei gasglu gan awdurdod casglu gwastraff neu unrhyw fenter awdurdodedig arall. Ond, byddai'n berthnasol i ddeiliad cartref a oedd naill ai wedi dyddodi ei wastraff cartref yn anghyfreithlon neu a oedd wedi peri'n fwriadol neu ganiatáu'n fwriadol i rywun arall wneud hynny.

5.2 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, adran 34

Mae [Adran 34](#) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn darparu y *bydd yn ddyletswydd ar unrhyw unigolyn sy'n mewnfario, yn cynhyrchu, yn cario, yn cadw, yn trin neu'n gwaredu gwastraff a reolir neu sy'n gyfrifol am wastraff o'r fath i gymryd pob cam perthnasol sydd ganddo yn ei swyddogaeth, fel sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau –*

- a) *i atal unrhyw unigolyn arall rhag mynd yn groes i adran 33;*
- b) *i atal unrhyw unigolyn arall rhag mynd yn groes i Reoliad 12 o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol;*
- c) *i atal gwastraff rhag dianc allan o'i reolaeth neu allan o reolaeth unrhyw unigolyn arall; a*
- d) *wrth drosglwyddo'r gwastraff, sicrhau –*
 - i) *mai dim ond i unigolyn awdurdodedig neu i unigolyn at ddibenion cludiant awdurdodedig y caiff ei drosglwyddo; a*
 - ii) *bod disgrifiad ysgrifenedig o'r gwastraff wedi cael ei drosglwyddo, a fydd yn galluogi unigolion eraill i osgoi mynd yn groes i'r adran honno neu Reoliad 12 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, neu fynd yn groes i drwydded amgylcheddol, a chydymffurfio â dyletswydd o dan yr is-adran hon o ran gwastraff yn dianc".*

Fel y nodir uchod, mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i'r rhai sy'n cynhyrchu gwastraff cartrefi, fel sefydliadau addysgol a chartrefi. Gall awdurdod lleol erlyn unrhyw unigolyn sydd â dyletswydd gofal dros wastraff pan fydd yr unigolyn hwnnw wedi torri'r ddyletswydd honno. Er nad yw Canllaw Diffiniol y Cyngor

Dedfrydu yn cyfeirio'n uniongyrchol at Adran 34 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae'r llysoedd dedfrydu'n ei defnyddio fel sail ar gyfer dyfarniadau dedfrydu.

Nid yw'r ddyletswydd gofal a nodir yn Adran 34(1) yn berthnasol i ddeiliad eiddo domestig o ran y gwastraff cartrefi a gynhrychir ar y safle hwnnw. Yn hytrach, rhoddir dyletswydd gofal sy'n fwy cyfyngedig ar ddeiliad unrhyw eiddo domestig yng Nghymru, o dan adran [34\(2A\)](#), sef *cymryd pob cam sy'n rhesymol bosibl o dan yr amgylchiadau i sicrhau mai dim ond i unigolyn awdurdodedig neu i unigolyn at ddibenion cludiant awdurdodedig y bydd yn trosglwyddo gwastraff cartref a gynhrychir ar y safle.*

Gan gydnabod y gall erlyn deiliad cartref am dorri ei ddyletswydd gofal fod yn ymateb anghymesur yn aml iawn, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cyd rhwng Defra a Llywodraeth Cymru [ar y Ddyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref](#) yn 2018 i ystyried cyflwyno hysbysiad cosb benodedig fel opsiwn gorfodi arall yn lle erlyn pan fydd achos o dorri dyletswydd gofal y cartref wedi'i ganfod. Ymatebodd DEFRA a Llywodraeth Cymru [i'r sylwadau a gyflwynwyd](#) ym mis Tachwedd 2018. Diwygiodd [Rheoliadau Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref \(Cosbau Benodedig\) \(Cymru\) 2019](#) Adran 34ZB o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, a daeth hyn i rym o 21 Chwefror 2019. Os yw'n ymddangos i Gyfoeth Naturiol Cymru neu awdurdod casglu gwastraff yng Nghymru, fod unigolyn wedi methu â chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gwastraff cartrefi'n cael ei drosglwyddo i unigolyn awdurdodedig, caiff yr awdurdod roi hysbysiad cosb benodedig o £300. Gellir cynnig gostyngiad o £150 am dalu'r hysbysiad cosb benodedig yn gynnar. Diweddarodd Defra a Llywodraeth Cymru'r [Cod Ymarfer Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff](#) ym mis Tachwedd 2018. Mae Adran 5 yn rhoi arweiniad i ddeiliad eiddo domestig ynghylch eu gofynion dyletswydd gofal o ran gwastraff.

Yn fyr, mae'n drosedd i ddeiliad cartref beidio â chymryd pob cam rhesymol i fodloni'r ddyletswydd gofal. Mae gan awdurdod lleol ddisgresiwn o ran y camau gorfodi i'w cymryd pan fydd achos o dorri'r rheolau yn cael ei ganfod. Gall hyn fod yn erlyn, a gall fod yn ddirwy a chofnod troseddol os bydd euogfarn. Ar y llaw arall, gall deiliad cartref sydd wedi cael ei euogfarnu gael hysbysiad cosb benodedig am dorri'r ddyletswydd gofal. Mewn achos o'r fath, ni ellir erlyn deiliad y cartref am y drosedd os bydd y ddirwy wedi cael ei thalu o fewn yr amser a nodir.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar Hysbysiadau Cosb Benodedig Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref.

5.3 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Adran 45

Mae [Adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd](#) yn cyflwyno'r ddyletswydd sylfaenol i awdurdod casglu gwastraff drefnu i gasglu gwastraff cartrefi yn ei ardal, a threfnu i gasglu unrhyw wastraff masnachol neu unrhyw wastraff sych y gellir ei ailgylchu neu wastraff bwyd pan fydd deiliad eiddo yn ei ardal yn gwneud cais am hynny. Dylid nodi nad yw gwastraff sych y gellir ei ailgylchu a gwastraff bwyd yn cynnwys gwastraff cartrefi na gwastraff bwyd o eiddo mewn ardal wledig. Gall awdurdod casglu gwastraff godi tâl am gasglu a/neu waredu gwastraff a ddisgrifir yn Atodlen 1, paragraff 4 Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012, gan gynnwys casglu gwastraff cartrefi sy'n pwyso mwy na 25kg a/neu sy'n fwy na dimensiynau penodol o ran maint, o eiddo domestig.

Yn rhinwedd [Adran 45B](#) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd, bydd awdurdod casglu gwastraff yng Nghymru, pan fydd ganddo ddyletswydd i drefnu i gasglu gwastraff cartrefi o unrhyw eiddo, yn sicrhau bod ei drefniadau'n cynnwys casglu o leiaf dau fath o wastraff y gellir ei ailgylchu ar y cyd neu ar wahân i weddill y gwastraff cartrefi. At y diben hwn, golyga "gwastraff y gellir ei ailgylchu" wastraff cartrefi y gellir ei ailgylchu neu ei gompostio, felly mae'n cynnwys gwastraff bwyd.

5.4 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Adran 46

Mae [Adran 46](#) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn caniatáu i'r awdurdod casglu gwastraff gyflwyno hysbysiad i ddeiliad cartref yn mynnu bod y deiliad yn rhoi'r gwastraff sydd i'w gasglu mewn cynwysyddion o fath a nifer penodedig. Hefyd, gall hysbysiad a roddir i ddeiliad wneud darpariaeth o ran:

- a. math a maint y cynwysyddion a ddefnyddir a sawl un sydd yno;
- b. pa bryd y byddant yn cael eu rhoi allan er mwyn casglu'r gwastraff;
- c. pa eitemau neu sylweddau y ceir neu na cheir eu rhoi ym mhob cynhwysydd; a
- d. pha ragofalon i'w cymryd pan fydd sylweddau neu eitemau penodol yn cael eu rhoi ynddynt.

Bydd unrhyw unigolyn sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw ofynion gan awdurdod casglu gwastraff yng Nghymru, heb esgus rhesymol, yn agored i drwy euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol. Mae hawl i apelio yn erbyn unrhyw hysbysiad a roddir gan awdurdod casglu gwastraff am 21 diwrnod. Nid oes rheidrwydd ar awdurdod casglu gwastraff i gasglu gwastraff cartrefi sy'n cael ei roi allan i'w gasglu yn groes i ofyniad o dan adran 46. Mae Adrannau 47ZA a 47ZB yn darparu opsiwn gofodi gwahanol i erlyn.

5.5 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Adrannau 47ZA a 47ZB

Mae [Adran 47ZA](#) a [47ZB](#) yn darparu, pan fydd gan swyddog awdurdodedig mewn awdurdod casglu gwastraff yng Nghymru reswm dros greu bod unigolyn wedi cyflawni trosedd o dan adran 46, caiff y swyddog awdurdodedig roi hysbysiad cosb benodedig i'r unigolyn hwnnw, a fydd yn cynnig y cyfle i'r unigolyn gael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd am euogfarn drwy dalu cosb benodedig i'r awdurdod casglu gwastraff. Bydd hysbysiad cosb benodedig yn cynnwys digon o fanylion am yr amgylchiadau yr honnir sy'n ffurfio'r drosedd, fel sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi gwybodaeth resymol am y drosedd. Rhaid nodi'r canlynol hefyd:

- a. swm y gosb benodedig;
- b. y cyfnod pan na fydd achos yn cael ei ddwyn ar gyfer y drosedd; ac
- c. enw a chyfeiriad yr unigolyn y mae'n rhaid talu'r gosb iddo.

Mae [Adran 47ZB\(2\)](#) yn nodi mai'r awdurdod casglu gwastraff sy'n pennu swm y gosb benodedig yn eu hardal leol, neu os nad oes swm wedi'i bennu, bydd yn £100.00.

Mae [Adran 47ZA](#) yn darparu na fydd yr awdurdod casglu gwastraff yn cychwyn achos am drosedd cyn i'r cyfnod o bedwar diwrnod ar ddeg ar ôl dyddiad yr hysbysiad cosb benodedig ddod i ben ac ni ellir canfod unigolyn yn euog o drosedd os yw wedi talu'r hysbysiad cosb benodedig². Cyflwynwyd Adran 47ZA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd i ddiwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Cafodd ei chyflwyno gan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd (2005). Y ddeddf hon wnaeth ddiwygio Adran 46 hefyd, i roi pŵer i awdurdodau weinyddu hysbysiadau cosb benodedig am dorri gofynion Adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd.

² Is-adran (3a) o Adran 47ZA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd, Rhan II

5.6 Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011

Mae [Rheoliadau Gwastraff \(Cymru a Lloegr\) 2011, Rheoliad 13](#) yn darparu (1) o'r 1^{af} o Ionawr 2015, (2) yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i sefydliad neu fenter sy'n casglu gwastraff papur, metel, plastig neu wydr wneud hynny drwy gyfrwng casgliad ar wahân

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i bob awdurdod casglu gwastraff, wrth wneud trefniadau i gasglu gwastraff papur, metel, plastig neu wydr, sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu gwneud drwy gyfrwng casgliad ar wahân.

(4) Mae'r dyletswyddau yn y rheoliad hwn yn berthnasol pan fydd casgliad ar wahân —

(a) yn angenrheidiol i sicrhau bod gwastraff yn mynd drwy weithrediadau adfer yn unol ag Erthyglau 4 a 13 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ac er mwyn hwyluso neu wella prosesau adfer; ac

(b) yn ymarferol yn dechnegol, yn amgylcheddol ac yn economaidd

Rhoddir rhwymedigaeth ar awdurdodau casglu gwastraff i ddarparu cynwysyddion i ddeiliaid cartrefi ar gyfer y casgliadau ar wahân.

Mae [Canllawiau Statudol](#) wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer awdurdodau casglu gwastraff yng Nghymru, gyda chynghor ar gynnal asesiad, ochr yn ochr â [chanllawiau eraill y DU](#) ar y pwnc. Dylai pob awdurdod casglu gwastraff gadw cofnodion a thrywydd archwilio fel tystiolaeth o'r hyn sy'n sail i'w penderfyniadau. Os bydd yr awdurdod casglu gwastraff yn cynnal casgliadau ar wahân ar gyfer pob Deunydd Penodedig, bydd yn gallu cymell deiliaid cartrefi i gyflwyno'r Gwastraff Penodedig felly.

Nodwch y bydd [Rheoliadau Gwastraff \(Diwygiadau Amrywiol\) \(Ymadael â'r UE\) \(Rhif 2\) 2019](#) yn diwygio Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 ar ôl i'r DU adael yr UE. Yng nghyd-destun Rheoliad 13, trosir y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn Gyfraith yng Nghymru a Lloegr a bydd yn bosibl gorfodi ei hegwyddorion o hyd. Bydd [Rheoliadau Gwastraff \(Diwygiadau Amrywiol\) \(Ymadael â'r UE\) \(Cymru\) 2019](#), a wnaed ar 28 Chwefror 2019, yn dod i rym ar y diwrnod y bydd y DU yn gadael yr UE (diwrnod ymadael). Maent yn ceisio diwygio cyfraith gwastraff yr UE a ddargedwir yng Nghymru er mwyn gallu parhau i weithredu'r drefn bresennol o ran gwastraff, gan gynnwys [Rheoliadau Targedau Ailgyrchu, Paratoi i Aildefnyddio a Chompostio \(Monitro a Chosbau\) \(Cymru\) 2011](#).

6 Tabl Deddfwriaeth Sylfaenol – Rhestr Gyfeirio Gyflym

Deddfwriaeth	Pwerau	Cosbau i Ddeiliaid Cartrefi
A93 (1) Deddf yr Amgylchedd 1995	Gall yr Ysgrifennydd Gwladol osod rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr gwastraff, i ailddefnyddio, adfer neu ailgylchu mwy o gynnyrch a deunyddiau. Nid yw'n ymestyn i gartrefi.	N/A
a.79 Deddf Llywodraeth Cymru 2006	Mae'n mynnu bod Gweinidogion Cymru'n llunio cynllun sy'n nodi sut y maent am hybu datblygu cynaliadwy.	N/A
a. (10)(1) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol: a. cyhoeddi dangosyddion y mae'n rhaid eu rhoi ar waith at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nosau llesiant; a b. cyflwyno copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.	N/A
Rh.13 Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011	Rhaid i awdurdodau casglu gwastraff gasglu gwastraff papur, metel, plastig a gwydr ar wahân i wastraff cartrefi arall, pan fydd hyn yn: a. Angenrheidiol i sicrhau bod gwastraff yn cael ei adfer yn unol ag Erthygl 4 ac Erthygl 13 y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ac er mwyn hwyluso a gwella'r broses o adfer; ac b. Yn ymarferol yn dechnegol, yn amgylcheddol ac yn economaidd. ³	N/A

³ [Rheoliad 13\(1\) Rheoliadau Gwastraff \(Cymru a Lloegr\) 2011](#)

<p>Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990</p> <p>33(1)(a)</p>	<p>Naill ai dyddodi gwastraff a reolir neu wastraff echdynnol neu beri'n fwriadol neu ganiatáu'n fwriadol i wastraff a reolir neu wastraff echdynnol gael ei ddyddodi mewn neu ar unrhyw dir, oni bai fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trwydded amgylcheddol sy'n caniatáu'r dyddodi ar waith, a • bod y dyddodi yn unol â'r drwydded. 	<p>A.33(8)</p> <p>Mae unigolyn sy'n cyflawni trosedd o dan <i>adran 33(1)</i> yn debygol o wynebu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynd gerbron llys ynadon am drosedd: <ul style="list-style-type: none"> ○ a gyflawnwyd cyn 12 Mawrth 2015; carchar am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis, dirwy heb fod yn fwy na £50,000 neu'r ddau; ac ○ a gyflawnwyd ar 12 Mawrth 2015 neu ar ôl hynny; carchar am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis, dirwy ddiderfyn neu'r ddau. • Mynd gerbron Llys y Goron; carchar am gyfnod heb fod yn fwy na phum mlynedd, dirwy ddiderfyn neu'r ddau.
<p>Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990</p> <p>A.34</p> <p>A34 (2)</p>	<p>Rhoddir dyletswydd gofal ar unrhyw un sy'n ymdrin â gwastraff a reolir i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r canlynol yng nghyswllt y gwastraff:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nad yw'n cael ei waredu'n anghyfreithlon, heb drwydded, neu drwy dorri rheolau unrhyw drwydded, nac yn cael ei drin, ei gadw na'i waredu mewn ffordd sy'n arwain at lygredd neu niwed. • Nad yw'n dianc allan o reolaeth unigolyn. • Dim ond i unigolyn awdurdodedig y caiff ei drosglwyddo, ynghyd â disgrifiad ysgrifenedig sy'n galluogi'r trosglwyddai i wybod digon amdano i allu delio â'r gwastraff yn briodol ac osgoi torri gofynion eu trwydded neu adran 33(1). <p>Rhaid i ddeiliaid cartrefi gymryd camau rhesymol i sicrhau mai dim ond i unigolion awdurdodedig y byddant yn trosglwyddo eu gwastraff cartref</p>	<p>a.34 (6) Mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â gofynion adran 34. Mae unigolyn sy'n cyflawni trosedd o dan yr adran hon yn agored drwy euogfarn i ddirwy ddiderfyn yn naill ai'r llys ynadon neu Llys y Goron.</p> <p>O ddechrau 2019 ymlaen – ar ôl i Lywodraeth Cymru gyflwyno rheoliadau i ddiwygio Adran 33 – Hysbysiad Cosb Benodedig o ran torri gofynion Adran 34(2)</p>

	(awdurdod casglu gwastraff neu gludydd cofrestredig yn bennaf).	
Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Rhan 2 A.45	Y ddyletswydd sylfaenol i awdurdod casglu gwastraff i drefnu i gasglu gwastraff cartrefi.	N/A
Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Rhan 2 A.46	Yr awdurdod casglu gwastraff i gymell deiliaid cartrefi i gyflwyno eu gwastraff yn unol â rheolau sydd wedi'u rhagnodi ymlaen llaw.	A. 47ZA – gall swyddog awdurdodedig awdurdod casglu gwastraff roi Hysbysiad Cosb Benodedig, a rhaid iddo nodi a) y cyfnod pan na fydd achos yn cael ei ddwyn ar gyfer y drosedd; b) swm y gosb benodol; ac c) i bwy y dylid talu'r gosb benodol ac ym mha gyfeiriad.

Paratowyd y ddogfen gan: Archana Pisharody, Ymgynghorydd, Resource Futures a Sarah Holmes, Cyfarwyddwr Cyfreithiol, Womble Bond Dickinson (UK) LLP

Gwiriwyd y ddogfen gan: Laura Snoulton, Uwch Ymgynghorydd a Bethan Jones, Pennaeth Newid Ymddygiad, Resource Futures